AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

# In Focus

Gwanwyn 2026 - Rhifyn 32

# Cylchlythyr y Gwanwyn AWTTC

**Y newyddion, y cyhoeddiadau a'r adnoddau diweddaraf.**

**Yn y rhifyn hwn**
**Chwefror – Ebrill 2026 newyddion gan:**

- **Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)**
  Cefnogi arfarniadau technoleg iechyd, asesiadau meddyginiaethau Cymru'n Un a sicrhau ansawdd allbynnau IPFR
- **Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)**
  Datblygu Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol a dadansoddi ac adrodd ar ddata defnydd meddyginiaethau.
- **Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU)**
  Darparu cyngor 24 awr y dydd ar wenwynau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.
- **Canolfan Cerdyn Melyn (YCC) Cymru**
  Monitro adweithiau andwyol i feddyginiaethau.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Lansio Rhaglen Waith AWTTC 2025-2028

Rydym yn falch o gyhoeddi bod ein rhaglen waith ar gyfer 2025-2028 wedi'i rhyddhau.

Mae'r rhaglen yn dangos sut y byddwn yn cefnogi mynediad amserol at feddyginiaethau, yn darparu canllawiau rhagnodi ac adnoddau i hyrwyddo optimeiddio meddyginiaethau, ac yn cryfhau'r defnydd o ddata i wella canlyniadau i gleifion ledled Cymru.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru wedi ymuno ag AWTTC o fis Ebrill 2026

Ymunodd Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (WMAS) â Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) ar 1 Ebrill 2026, gan nodi cam pwysig i gryfhau gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ar feddyginiaethau ar draws GIG Cymru.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## AWTTC yn cynnal Diwrnod Ymgysylltu â Diwydiant

Nod y digwyddiad ar y Ebrill 30 oedd cryfhau'r cydweithio rhwng AWTTC a'r diwydiant fferyllol ac annog deialog gynnar ynghylch meddyginiaethau newydd a threfniadau masnachol sy'n gysylltiedig â chanllawiau gwerthuso technoleg NICE ac AWMSG.

Darllenwch ragor yma

## Diwrnod Arfer Gorau 2026 – Optimeiddio Meddyginiaethau ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy

Cofrestrwch nawr i sicrhau eich lle yn y Diwrnod Arfer Gorau eleni. Cewch gyfle i glywed gan arbenigwyr pwnc, dysgu gan gydweithwyr mewn byrddau iechyd eraill a bydd digon o amser i rwydweithio a sgwrsio â chydweithwyr o bob cwr o Gymru. Mae'r broses gofrestru bellach yn llawn, ond os hoffech gael eich ychwanegu at y rhestr aros, gallwch wneud hynny yma.

## Adnoddau optimeiddio meddyginiaethau AWMSG – Arolwg adborth

Mae ein harolwg adborth ar agor o hyd. Rhannwch eich adborth a helpwch i lywio adolygiad helaeth o'r 'Fframwaith Optimeiddio Meddyginiaethau' sy'n disgrifio sut mae adnoddau optimeiddio meddyginiaethau AWMSG yn cael eu creu; o gynnig gan randdeiliaid, i gymeradwyo, lledaenu ac adolygu. Ni ddylai'r arolwg hwn gymryd mwy na 10 munud i'w lenwi. Mae croeso i chi ei rannu gyda'ch cydweithwyr.

Arolwg

## AWTTC yng Nghynhadledd NICE 2026

Darparodd y gynhadledd blatfform rhagorol i gyfnewid syniadau, cyfrannu at drafodaethau craff, a myfyrio ar y dirwedd gofal iechyd sy'n esblygu'n gyflym.

Darllenwch ragor yma

## Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol

Mae'r adran 'Triniaeth COVID-19' wedi'i diweddaru i gael gwared ar sotrovimab fel opsiwn yn dilyn ei ddiddymu ac oherwydd bod y stociau sy'n weddill wedi dod i ben ym mis Chwefror 2026.

Darllenwch ragor yma

## Diwrnod Clefydau Prin 2026: Uchafbwyntiau Derbyniad Cymru

Roedd hi'n wych ymuno â Chynghrair Geneteg y DU yn y Derbyniad Blynyddol ym Mae Caerdydd i ddathlu #DiwrnodClefydauPrin. Cyfle pwysig i ddod at ein gilydd, codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r gymuned clefydau prin.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Dysgu dros Ginio – Chwefror 2026

Cynhaliwyd y sesiynau ar-lein awr o hyd ym mis Chwefror ac Ebrill. Ar y 4ydd o Chwefror roedd y sgyrsiau'n cynnwys:

- 'Canllawiau Rheoli a Phresgripsiynu Asthma Oedolion Cymru Gyfan'
- Y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau ar risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig â defnyddio systemau dosau wedi'u monitro ymhlith pobl hŷn.
- Diweddariad cyflym – Newyddion Therapiwtig.

Roedd y sgyrsiau ar 21 Ebrill yn cynnwys:

- Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru - Llyfr Fformiwlâu Archebion wedi'u Llofnodi
- Fferylliaeth Gymunedol: Y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin a'r Gwasanaeth Fferyllwyr-Bresgripsiynwyr Annibynnol.

Diweddariad cyflym – Newyddion Therapiwtig. Gwyliwch y cyflwyniadau yma.

Cynhelir y sesiwn nesaf ar 30 Mehefin, trefnwch eich lle yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## AWTTC yn y Digwyddiad Arddangos Genomeg 2026

Mynychodd AWTTC Ddigwyddiad Arddangos Genomeg 2026, gan gynnal stondin yn yr ardal arddangos drwy gydol y dydd. Roedd y digwyddiad ar 23 Ebrill yn Stadiwm Dinas Caerdydd yn gyfle gwych i ymgysylltu â chynrychiolwyr, codi ymwybyddiaeth o waith parhaus AWTTC, a rhwydweithio â'r nifer o sefydliadau cleifion, clinigwyr, ymchwilwyr a rhanddeiliaid ehangach y GIG a oedd yn bresennol.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Dangosfwrdd Anadlyddion wedi'i Ddiweddaru i Wella'r Broses o Adrodd ar Ddefnydd Anadlyddion yn GIG Cymru

Mae AWTTC wedi rhyddhau fersiwn newydd o ddangosfwrdd Datgarboneiddio Anadlyddion, sydd bellach ar gael ar blatfform SPIRA. Mae'r diweddariad hwn yn cyflwyno sawl newid pwysig sydd wedi'u cynllunio i wella'r broses o fonitro defnydd anadlyddion ar draws gofal sylfaenol yng Nghymru.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Newyddion diweddaraf gan Grŵp er budd Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) AWMSG

Cynhaliwyd y cyfarfod PAPIG diwethaf ar 6 Mawrth gyda phynciau'n cynnwys:

- gwybodaeth i gleifion am amlfferylliaeth,
- proses genedlaethol ar gyfer cefnogi'r gwaith o gyflwyno therapïau cymhleth yng Nghymru,
- posteri a thaflenni gwybodaeth am wrthfiotigau i gleifion

Ymunwch â ni yn ein cyfarfod ar-lein am ddim nesaf ar 18 Mehefin. I gael gwybod mwy ewch i'n gwefan.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Ysgrifennydd GIG Cymru a helpodd i sefydlu'r Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg yn ymddeol ar ôl gyrfa o 40 mlynedd

Mae Jan Scott yn rhoi'r gorau i'w swydd ar ôl gyrfa sy'n ymestyn yn ôl i ddiwedd y 1970au. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cefnogodd y gwaith o sefydlu'r Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg, sydd bellach yn Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan.



Bydd cydweithwyr yn colli Jan ond maent yn dymuno ymddeoliad hir, iach a hapus iddi.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Dr Sophie Harding yn ymuno ag AWTTC i arwain y ddarpariaeth ffarmacogenomeg yng Nghymru

Mae gan Dr Harding arbenigedd sylweddol mewn ffarmacogenomeg (PGx) ac mae eisoes wedi chwarae rhan ganolog wrth lunio ei ddyfodol yng Nghymru. Mae penodiad Dr Harding yn AWTTC yn gam sylweddol ymlaen i ffarmacogenomeg yng Nghymru, gan gryfhau rôl AWTTC wrth gefnogi cyflawniad y rhaglen genedlaethol uchelgeisiol hon i wella gofal cleifion.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Mae'r Fferyllydd a'r Arweinydd Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Cymunedol, Emyr Jones, wedi ymuno ag AWTTC

Mae Emyr Jones wedi ymuno â Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) fel Fferyllydd Ymgynghorol ac Arweinydd Cenedlaethol ar gyfer Cymru: Gofal Iechyd Cymunedol, gyda'r rôl genedlaethol sefydledig yn trosglwyddo i AWTTC. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r gwaith parhaus i gryfhau cydlynu cenedlaethol mewn gofal iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol, gan gefnogi aliniad agosach â gwaith AWTTC i wella'r defnydd diogel, effeithiol ac effeithlon o feddyginiaethau ar draws GIG Cymru a systemau iechyd a gofal ehangach.

Darllenwch ragor yma

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## Cyngor meddyginiaethau newydd ar gyfer GIG Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyngor gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) ar gyfer dau meddyginiaeth.

Chwefror - infliximab ar gyfer niwmonitis a achosir gan ICI.
Mawrth - nivolumab plus ipilimumab

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## Rhestr feddyginiaethau Blueteq GIG Cymru

Mae ffurflenni Blueteq ar gyfer oncoleg a hematoleg malaen bellach ar gael i'w defnyddio yng Nghymru. Mae pob ffurflen Blueteq sydd ar gael ar hyn o bryd wedi'i rhestru ar wefan AWTTC, chwiliwch am feddyginiaeth i wirio a oes ffurflen Blueteq gysylltiedig. Bydd y rhestr hon yn cael ei diweddaru'n rheolaidd wrth i ffurflenni gael eu datblygu.

Darllenwch ragor yma

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Fersiynau diweddaraf o 'adroddiadau ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru' ac 'adroddiadau cyfnodau rhagnodi GIG Cymru' wedi'u cyhoeddi

Mae AWTTC yn cynhyrchu adroddiadau misol sy'n darparu crynodeb byr o rai o'r metrigau allweddol a ddarperir o fewn dangosfyrddau SPIRA ar gyfer 'datgarboneiddio anadlyddion' a 'chyfnodau rhagnodi'.

Darllenwch ragor yma

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2025–2028: Dadansoddiad o ddata presgripsiynu hyd at Mawrth 2026

Mae adroddiad y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPI), sy'n dadansoddi data ar gyfer y chwarter sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2026, wedi'i gyhoeddi.

Darllenwch ragor yma

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## NPIS yn mynychu Wythnos Gyrfaoedd a Modelau Rôl Grangetown

Cymerodd y plant ran mewn gweithgaredd lle gwnaethon nhw restru gwahanol rolau gofal iechyd sy'n gysylltiedig ag achos gwenwyno. Cynhaliodd NPIS Caerdydd stondin hefyd, gan roi cyfle i ddisgyblion a rhieni archwilio rôl gwyddonydd gwenwynau a gofyn cwestiynau.

Darllenwch ragor yma

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Tocsicoleg Feddygol 2026

Bydd Uned Gwenwynau Genedlaethol Cymru (WNPU) yn cynnal eu cwrs Tocsicoleg Feddygol blynyddol yng Ngwesty'r Leonardo yng Nghaerdydd ar 9-10 Hydref 2026. Mae'r digwyddiad ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am docsicoleg feddygol.

Darllenwch ragor yma

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## NPIS Caerdydd yn mynychu digwyddiad "Byddwch yn Wyddonydd" Prifysgol Caerdydd

Mynychodd bron i 650 o ymwelwyr y digwyddiad, gan gymryd rhan weithredol yn y gweithgareddau a gadael adborth hyfryd am eu profiad.

Darllenwch ragor yma

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## NPIS Caerdydd yn mynychu digwyddiad "Gwyddoniaeth mewn Iechyd yn Fyw"

Roedd y diwrnod yn gyfle gwerthfawr i ymgysylltu â myfyrwyr brwdfrydig, codi ymwybyddiaeth o'r NPIS ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor yma

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Mynychodd NPIS Caerdydd ddigwyddiad CPD Canolfan Gwybodaeth Gwenwynau Genedlaethol Dulyn

A gynhaliwyd i ddathlu 60 mlynedd ers sefydlu'r NPIC. Roedd y rhaglen yn cynnwys cyflwyniadau gwych ac yn cynnig cyfle gwerthfawr ar gyfer dysgu a rhwydweithio.

Darllenwch ragor yma

Yellowcard Centre Wales

## YCC Cymru yn mynychu Cynhadledd Imiwneiddio Cymru

Mynychodd tîm Canolfan Cerdyn Melyn Cymru (YCC Cymru) Gynhadledd Imiwneiddio Cymru ar 24 Ebrill, lle cynhaliwyd stondin wybodaeth i godi ymwybyddiaeth o gynllun adrodd y Cerdyn Melyn a hyrwyddo diogelwch cleifion.

Darllenwch ragor yma

Yellowcard Centre Wales

## Papur ar adrodd ADR yng Nghymru

Mae cydweithwyr o AWTTC ac YCC Cymru wedi cyfrannu at ymchwil newydd a gyhoeddwyd yn yr International Journal of Pharmacy Practice sy'n archwilio sut y gellid gwella achosion o adrodd am adweithiau niweidiol i gyffuriau (ADR) ar gyfer fferyllwyr cymunedol yng Nghymru.

Darllenwch ragor yma

Yellowcard Centre Wales

## Kolor Dash Alana yn codi arian i'r elusen



Llwyddodd Alana Adams, Prif Fferyllydd yng Ngwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (WMAS), i godi £500 ar gyfer Gofal Hosbis Dewi Sant ar ôl cymryd rhan yn Kolor Dash yr elusen.

Wedi'i gynnal ar 25 Ebrill ym Mharc Tredegar, roedd y digwyddiad 5K, sy'n addas i deuluoedd, yn rhoi cyfle i gyfranogwyr gerdded, loncian a rhedeg eu ffordd trwy gwrs bywiog tra'n cael eu gorchuddio â phowdr lliwgar, i gyd i gefnogi gwasanaethau gofal hosbis ledled De-ddwyrain Cymru.

Ymunodd Alana â channoedd o gyfranogwyr ar gyfer y digwyddiad, gan godi arian hanfodol i gefnogi'r gofal tosturiol a ddarperir gan Ofal Hosbis Dewi Sant i gleifion a theuluoedd sy'n byw gyda salwch sy'n cyfyngu ar fywyd.

Wrth siarad ar ôl y digwyddiad, dywedodd Alana ei bod wrth ei bodd yn cefnogi elusen leol mor bwysig a diolchodd i bawb a wnaeth gyfrannu a'i chefnogi ar hyd y ffordd.

Llongyfarchiadau i Alana ar y cyflawniad gwych hwn ac am gefnogi achos mor deilwng.